**COFNODION CYFARFOD ANARFEROL Y CYNGOR A GYNHALIWYD AR 30 MEDI 2024**

**Yn bresennol:** Y Cynghorwyr Marc Lloyd Griffiths, Cadeirydd

Morwenna Pugh

Mark Thomas

Dewi Prysor

Peter Jones

Gareth Davies

David Meirion Jones

Sioned Graham-Cameron, Clerc

Ellen Pugh, Dirprwy Gadeirydd

**1. Ymddiheuriadau**

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwyr Linda Ann Jones a Dafydd Dafis.

**2. Datgan Buddiannau**

Datganodd Y Cynghorydd Marc Lloyd Griffiths fuddiant yn eitem 3 ar yr agenda.

**3. Materion y mae'r Cadeirydd yn ystyried eu bod yn rhai brys**

Adroddwyd bod cyfarfodydd wedi eu cynnal yn y Berllan gyda dau o swyddogion Cyngor Gwynedd, Norman Hughes a Hywyn Williams.

Roedd Y Cynghorydd Mark Thomas wedi cyfarfod ar safle Gwylfa gyda Tom Jones, a bod y cwmni yn gofyn i'r Cyngor Tref dalu hanner y gost o drwsio'r wal a bod angen gosod ffens. Gan ei fod yn fater o iechyd a diogelwch, cytunwyd bod hyn yn cael ei drin cyn gynted ag y bo modd.

Adroddwyd bod sesiwn galw heibio yn cael ei chynnal ym Mhlas Tan y Bwlch ar 14 Hydref.

**Cytunwyd symud eitem 6 i fyny'r rhaglen gan fod Peter Roberts, Uwch Beiriannydd Goleuo Cyngor Gwynedd yno i drafod goleuadau Nadolig.**

**6. Goleuadau Nadolig**

Esboniodd Peter Roberts y sefyllfa a bod llawer o offer yn y depo yn y Blaenau. Dywedodd ei fod yn hapus i gyfarfod â chynghorwyr yno i edrych ar y goleuadau er mwyn gallu penderfynu beth i'w wneud gyda nhw. Dywedodd Y Cynghorydd Morwenna Pugh a'r Cynghorydd Peter Jones y buasent yn ei gyfarfod yno fore Gwener.

**7. Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 / Town and Country Planning Act 1990**
**Rhif Cais /** Application No.: C24/0589/03/DT
**Lleoliad /** Location: Bron Manod, Cae Clyd, Blaenau Ffestiniog, Gwynedd, LL41 4BA
**Bwriad /** Proposal: **Ymestyn ystafell storfa cefn 5.6m x 2.8m presennol gydag strwythur deulawr newydd 7m**
**x 6m Oak Frame i'w ddefnyddio fel cegin, man bwyta ac ystafell fyw.**
To extend existing 5.6m x 2.8m rear elevation store room with a new 7m x 6m Oak

Frame single storey building for use as kitchen, dining and sitting area.

Cynigiodd Y Cynghorydd Mark Thomas ac eiliodd Y Cynghorydd David Meirion Jones nad oedd y Cyngor Tref yn gwrthwynebu a chytunodd pawb.

**5. MUGA**

Cafwyd trafodaeth ar y math o arwyneb roedd y Cyngor Tref ei eisiau ar gyfer y MUGA. Cynigiodd Y Cynghorydd Morwenna Pugh ac eiliodd Y Cynghorydd Peter Jones mai 'astro turf' a fyddai orau a chytunodd pawb. Cytunwyd hefyd y dylid cael cymaint o gemau ag y bo modd ar y safle ac nad oedd angen ffens yn gwahanu dwy ochr y safle.

Daeth y cyfarfod i ben am 7.31pm

DRAFFT